# ASTUDIAETH ACHOS

**AMY CROWTHER,**
**Hyfforddwr Technegol Therapi Iaith a Lleferydd**

## Hyfforddi ymarferwyr gofal plant i gefnogi iaith, lleferydd a chyfathrebu



## Beth yw dy rôl?

Hyfforddwr Technegol Therapi Iaith a Lleferydd. Mae fy ngwaith wedi'i ariannu drwy Raglen Trawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru ('Braenaru') i Sir y Fflint, fel rhan o ymdrechion i ddarparu cymorth iaith, lleferydd a chyfathrebu cyffredinol a tharged yng nghyd-destun pwysau gweithlu.

## Beth wnest di?

Cynnig pecyn hyfforddi i ymarferwyr y Blynyddoedd Cynnar ar draws sefydliadau Hawl Bore Oes nas cynhelir. Roedd y pecyn yn cynnwys cwrs hyfforddi cyffredinol tair awr ar-lein mewn iaith, lleferydd a chyfathrebu ac yna ymweliad 1.5 awr â'r lleoliad. Mae'r ymweliad dilynol â'r lleoliad yn cynnwys eu cefnogi i weithredu'r strategaethau a gafodd eu trafod yn yr hyfforddiant ar-lein, gyda'r plant yn y lleoliad, ac yn cynnig cyfle i ymarferwyr werthuso'u harfer eu hunain ac amlygu meysydd cryfder a meysydd i'w gwella o ran iaith, lleferydd a chyfathrebu.

## Pwy wnaethoch chi eu cyrraedd?

25 aelod o staff o 16 o leoliadau Hawliad Cynnar nas cynhelir yn Sir y Fflint.

## Beth oedd yr effaith?

- Nid oedd 11/24 o bobl a atebodd yr arolwg wedi cael unrhyw hyfforddiant iaith a lleferydd cyn manteisio ar y pecyn hyfforddi hwn
- Dywedodd 75% eu bod yn hyderus wrth gefnogi plant a'u teuluoedd gydag iaith, lleferydd a chyfathrebu ar ôl yr hyfforddiant o'i gymharu â 17% o bobl cyn hynny.
- Teimlodd 50% o ymarferwyr yn hyderus iawn wrth nodi plant ag anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu o'i gymharu â 33% cyn hynny.

## Sut wyt ti'n teimlo amdano?

Rwy'n credu bod yr hyfforddiant wedi'i groesawu a bod ymarferwyr yn ddiolchgar iawn am y mewnbwn o ran iaith, lleferydd a chyfathrebu. Mae llawer wedi dweud mai hwn yw'r hyfforddiant ffurfiol cyntaf maen nhw wedi'i gael yn y maes ac mae llawer wedi dweud mor syml yw'r strategaethau a thechnegau sydd yn yr hyfforddiant. Mae rhai hefyd wedi dweud bod y sesiynau hyn wedi gwella hyder a dealltwriaeth staff o ran iaith, lleferydd a chyfathrebu plant, ac y byddai rhieni'n elwa ar yr un hyfforddiant/ gwybodaeth. Rwyf wedi mwynhau'r elfen yn y lleoliadau yn arbennig ac yn credu bod hyn wedi rhoi cyfle i'r ymarferwyr ymwreiddio'r wybodaeth o'r sesiwn ar-lein yn llawn, yn ogystal â rhannu sgyrsiau a syniadau.

## Unrhyw sylwadau eraill?

Rwy'n edrych ymlaen at y flwyddyn academaidd nesaf pan allwn ni gynnig y pecyn hyfforddiant hwn i fwy o sefydliadau a staff a datblygu'r hyfforddiant ymhellach.